Coleg Cymraeg Cenedlaethol

**Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol**
Y Llwyfan
Heol y Coleg/College Road
Caerfyrddin/Carmarthen
SA31 3EQ

Cadeirydd/Chairman:
**Andrew Green**
Prif Weithredwr/Chief Executive:
**Dr Ioan Matthews**

Ffôn/Phone:
**01267 610400**
Ebost/Email:
gwybodaeth@colegcymraeg.ac.uk
www.colegcymraeg.ac.uk

# Cronfa Datblygiadau Strategol y Coleg: cynllun grantiau bach

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 8 Mai 2015 |
| **Cyfeirnod:** | 14/09 |
| **I:** | Penaethiaid sefydliadau addysg uwch Cymru, Grŵp Ymgynghorol y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, cydlynwyr darpariaeth cyfrwng Cymraeg sefydliadol a Swyddogion Cangen. |
| **Ymateb Erbyn:** | 12:00, 4 Mehefin 2015 |
| **Cyswllt:** | Rhian A. Davies |
| **E-bost:** | Rh.Davies@colegcymraeg.ac.uk |

Mae'r cylchlythyr hwn yn gwahodd ceisiadau am grantiau bach i'w dyfarnu o Gronfa Datblygiadau Strategol y Coleg.

**Mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol**

# Cylchlythyr Grantiau Bach

## Cefndir

1. Mae'r cylchlythyr hwn yn amlinellu'r trefniadau ar gyfer cyflwyno ceisiadau am grantiau bach o Gronfa Datblygiadau Strategol y Coleg Cymraeg Cenedlaethol [y Coleg].

2. Mae gan y Coleg Gronfa Datblygiadau Strategol [y Gronfa] ar gyfer prosiectau mawr ac mae dyfarniadau o'r Gronfa honno yn cael eu penderfynu o leiaf unwaith y flwyddyn.

3. Mae cyfran o'r Gronfa wedi'i neilltuo ar gyfer grantiau bach i gyllido neu gefnogi prosiectau bychain na fyddant yn parhau am yn hwy na blwyddyn, ac na fydd angen cyfraniad arnynt o fwy na £2,500 oddi wrth y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

4. Dyfarnwyd un cylch o ddyfarniadau Grantiau Bach yn 2014-15. Gwahoddwyd ceisiadau drwy gylchlythyr ar 24 Medi 2014 (Cylchlythyr Cyf:14/03). Cyhoeddwyd dyfarniadau'r cylch hwnnw ar 11 Mawrth 2015 (Cylchlythyr Cyf: 14/06).

5. Mae'r cylchlythyr hwn yn wahoddiad am ail gylch o geisiadau grantiau bach a ddyfernir yn ystod tymor yr Haf 2015.

6. Amcan y Gronfa Grantiau Bach yw cefnogi mentrau arloesol, gan gynnwys prosiectau unigol, a fydd yn helaethu a/neu'n cyfoethogi'r ddarpariaeth addysg uwch cyfrwng Cymraeg, neu'n cyfrannu mewn rhyw ffordd arall at gyflawni amcanion Cynllun Academaidd y Coleg. Croesewir ceisiadau am brosiectau a fydd yn arwain at gynhyrchu adnoddau addysgol neu gyhoeddiadau, a gellir hefyd gyflwyno ceisiadau am gyllid i gefnogi gweithgaredd neu ddigwyddiad academaidd cysylltiedig.

7. Mae'r Coleg yn awyddus i wahodd ceisiadau am gyllid i gefnogi amrywiaeth o weithgareddau a datblygiadau, ond **gofynnir i'r sawl sy'n cyflwyno ceisiadau i beidio â chynnwys y canlynol oddi mewn i geisiadau**:

    - Ceisiadau am gyllid i ryddhau amser darlithwyr er mwyn cyflawni ymchwil os y'u cyflogir eisoes ar gytundeb dysgu ac ymchwil mewn sefydliadau;
    - Ceisiadau am gyllid i ddatblygu adnoddau er mwyn cefnogi sgiliau iaith a/neu sgiliau astudio myfyrwyr;
    - Ceisiadau am gyllid i gefnogi digwyddiadau neu ddatblygiadau sydd eisoes wedi digwydd;
    - Ceisiadau gan unigolion nad ydynt yn aelodau o'r Coleg (yn unol ag amodau'r Cylchlythyr);
    - Ceisiadau'n ymwneud â gweithgareddau a gyllidir eisoes gan y Coleg (e.e. gwaith gan ddarlithwyr a gyllidir gan y Coleg neu waith a gwblheir dan un o brosiectau cenedlaethol y Coleg);
    - Ceisiadau sy'n ymwneud â gweithgareddau marchnata prifysgolion unigol yn unig;
    - Ceisiadau ym maes hyfforddi athrawon hyd nes y cytunir ar gynlluniau datblygu cenedlaethol;
    - Ceisiadau am fodiwlau cydweithredol (gwahoddwyd ceisiadau o'r math hwn yng nghylchlythyr 14/08 lle y nodwyd 31 Mawrth 2015 fel dyddiad cau);
    - Ceisiadau am weithgareddau cydweithredol e.e. cynadleddau myfyrwyr (gwahoddwyd ceisiadau o'r math hwn yng nghylchlythyr 14/08 lle y nodwyd 1 Mai 2015 fel dyddiad cau);
    - Ceisiadau gan unigolion sydd eisoes wedi derbyn grant bach, lle nad yw'r gwaith eto wedi'i gwblhau.

**Ceisiadau**

8. Gwahoddir ceisiadau am grantiau bach gan aelodau o'r Coleg yn unig (aelodaeth staff) drwy'r ffurf a nodir yn Atodiad A.

9. Gall pob sefydliad gyflwyno hyd at ddeg cais, ond ni chaniateir mwy nag un cais gan unrhyw unigolyn o fewn un cylch o geisiadau. Disgwylir hefyd i bob unigolyn gwblhau prosiect grant bach o'i eiddo cyn cyflwyno cais am grant bach arall. Ni chaniateir ymgeisio am grant bach os oes gan yr ymgeisydd grant bach ar waith.

10. Rhaid i bob cais gael ei arwyddo ar ran y sefydliad gan gynrychiolydd awdurdodedig, gan sicrhau y dilynwyd prosesau sefydliadol.

11. Cyhoeddir y penderfyniadau ar ddyraniadau o'r cylch hwn o geisiadau drwy gylchlythyr.

12. Dylid cyflwyno ceisiadau erbyn **12:00, 4 Mehefin 2015**. Ni dderbynnir ceisiadau a gyflwynir wedi'r dyddiad hwn, ac ni fydd modd addasu neu ddiwygio ceisiadau wedi'r dyddiad hwn.

**Gofynion eraill**

13. Bydd unrhyw adnoddau a ddatblygir ar ôl derbyn cyllid drwy'r Gronfa Grantiau Bach yn cael eu gosod ar lwyfannau e-ddysgu'r Coleg, e.e. Y Porth, Y Llyfrgell Adnoddau, Yr Esboniadur a/neu safle iTunes U y Coleg (oni nodir yn wahanol yn y cais grant).

14. Gellir cysylltu â Rheolwr Gwasanaethau Gwybodaeth y Coleg (Owain Huw o.huw@colegcymraeg.ac.uk) os am wybodaeth bellach ynglŷn â datblygu adnodd/cyhoeddiad ar ffurf briodol sy'n addas ar gyfer  llwyfannau e-ddysgu.

15. Trwyddedir adnoddau/cyhoeddiadau ar lwyfannau e-ddysgu'r Coleg o dan drwydded *Creative Commons* e.e. CC BY-SA 4.0 oni bai y ceir amgylchiadau arbennig, ac y cytunwyd yn ysgrifenedig ar yr amgylchiadau arbennig hynny gan y Coleg cyn dyfarnu'r grant. Cyfrifoldeb rheolwr y prosiect yw sicrhau bod

cyfranwyr yn ymwybodol o'r drefn hon, ac yn cydsynio iddi. Cyfrifoldeb rheolwr y prosiect yw clirio hawlfraint. Dylid nodi ar ba ffurf y rhagwelir cyhoeddi neu lwyfannu unrhyw adnodd a fydd yn deillio o'r prosiect a pha gamau a gymerir er mwyn gosod trwydded *Creative Commons* ar yr adnodd. Gellir cysylltu â Swyddog Cyhoeddiadau'r Coleg (Mari Fflur m.fflur@colegcymraeg.ac.uk) os am wybodaeth bellach ynglŷn â chanllawiau cyhoeddi'r Coleg

16. Bydd angen cyflwyno adroddiad byr yn nodi cynnyrch y prosiect, ynghyd â manyleb ariannol lawn a gymeradwywyd gan swyddfa gyllid y brifysgol, yn dilyn cwblhau'r prosiect.

17. Deuddeg mis fydd cyfnod hiraf unrhyw brosiect, a bydd angen dychwelyd unrhyw gyllid na wariwyd yn ystod y cyfnod hwnnw. Os yw'r amserlen yn newid am resymau y tu hwnt i reolaeth y rheolwr proisect, yna dylid cysylltu'n uniongyrchol â Swyddog Prosiectau'r Coleg (Rhian A. Davies rh.davies@colegcymraeg.ac.uk) gyda chais am estyniad.

**Ymholiadau pellach**

18. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau am grantiau bach ar e-bost at Rhian A. Davies yn y lle cyntaf.

**ATODIAD A**

## Teitl y Prosiect:

| | |
|---|---|
| Rheolwr y prosiect (enw, e-bost, rhif ffôn) | |
| Sefydliad: | |
| Dyddiad cychwyn: | |
| Dyddiad gorffen: | |
| Cyfanswm Grant: | |

1. Amlinelliad cryno o'r prosiect arfaethedig (heb fod yn hwy na 500 gair)

| |
|---|
| |

2. Amserlen a chyllideb arfaethedig y prosiect

| **Amserlen** | **Gweithgaredd** | **Cost** |
|---|---|---|
| | | |
| | Cyfanswm | |

3. Ffynonellau cyllid eraill (os yn berthnasol)

4. Cynnyrch y prosiect (heb fod yn hwy na 250 gair)

Arwyddwyd gan y rheolwr prosiect arfaethedig:

Arwyddwyd gan y sefydliad:

Dyddiad: